# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL
# (Galw penderfyniad i mewn)

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, W. I. Hughes, Eric Jones, R. Dylan Jones, Eric Roberts, Hefin W. Thomas, Ieuan Williams, J. P. Williams<br><br>Aelodau a alwodd y penderfyniad i mewn – Y Cynghorwyr T. H. Jones, R. L. Owen.<br>Y Comisiynydd Mick Giannassi,<br>Aelod Portffolio Cysgodol – y Cynghorydd R. G. Parry OBE |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo)<br>Uchel Swyddog Mân-ddaliadau (AEJ)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd W. T. Hughes. |

---

***Dywedodd y Cadeirydd na fyddai modd cychwyn y cyfarfod ar amser oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld. PENDERFYNWYD gohirio'r cyfarfod am hanner awr. Cafodd y cyfarfod ei ailgynnull am 11:00am.***

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd W. T. Hughes. Nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**2** Mabwysiadwyd yr isod:-

*Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.*

**3 MATER A GYFEIRIWYD I'R PWYLLGOR AM SYLW MEWN PERTHYNAS Â PHENDERFYNIAD A GAFODD EI ALW I MEWN**

Cyflwynwyd ffurflen Galw Penderfyniad i Mewn a gwblhawyd ac a lofnodwyd gan 5 Aelod o'r Cyngor Sir sef y Cynghorwyr T. H. Jones (yr Aelod a oedd yn arwain o ran galw'r penderfyniad i mewn), W. I. Hughes, Eric Jones, R. L. Owen, a H. W. Thomas mewn perthynas â Phenderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) mewn cytundeb gyda'r Comisiynydd ar gyfer Eiddo a Mân-ddaliadau, Mr. M. Giannassi.

Fel rhan o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod, cyflwynwyd Cofnod o'r Penderfyniad Gweithredol dyddiedig 3 Ebrill 2012 ynghyd ag adroddiad eglurhaol yn amlinellu'r rhesymau am y penderfyniad. Cyflwynwyd gwybodaeth ychwanegol hefyd ynghylch canlyniadau'r Grŵp Tasg a Gorffen ynghyd â map o'r ardal dan sylw.

Cafwyd amlinelliad gan y Cynghorydd T. H. Jones, fel yr Aelod a oedd yn arwain o ran galw'r penderfyniad i mewn, o'i resymau dros wneud hynny. Ymatebodd y Swyddog a'r Comisiynydd Giannassi yn manylu ar y camau yr oeddent wedi eu cymryd ac yn cadarnhau bod y penderfyniad wedi ei wneud yn unol â'r polisïau cyfredol fel y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.

Rhoddwyd cyfle i'r holl Aelodau fynegi barn ynghylch gwerthu neu gadw'r mân-ddaliadau dan sylw a chynigiwyd camau gwahanol y gallai'r swyddogion fod wedi eu cymryd. Nododd y Comisiynydd yr awgrymiadau a wnaed gan yr Aelodau a dywedodd bod hynny'n arwydd bod yr Aelodau yn awr yn gweld bod angen adolygu rhannau o'r polisi. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth hir ac ar ôl i'r Rheolydd Sgriwtini gadarnhau'r broses galw i mewn a'r unig opsiynau a oedd ar gael i'r Pwyllgor o ran gwneud argymhelliad/argymhellion mewn Cyfarfod Galw i Mewn, cynigiodd y Cynghorydd Ieuan Williams, gyda'r Cynghorydd J. Penri Williams yn eilio, y dylai'r Pwyllgor gefnogi'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r penderfyniad a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) mewn cytundeb gyda'r Comisiynydd ar gyfer Eiddo a Mân-ddaliadau mewn perthynas â thŷ fferm a thir Rhos Isaf.**

*Dechreuodd y cyfarfod am 11:00am a daeth i ben am 12.40pm*

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**